

## Agenda

---

**Teitl y Cyfarfod: Cyfarfod Bwrdd CNC (Diwrnod 1) – Sesiwn Gyhoeddus**

---

**Dyddiad y cyfarfod: 20/01/2021**

**Amser y Cyfarfod: 9.30- 13.00**

---

**Lleoliad: Cyfarfod Microsoft Teams**

[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

Neu ymunwch dros y ffôn (sain yn unig)

[+44 29 2105 5545,,914136701#](tel:+442921055545914136701)

---

### Arsylwyr:

Amser	Eitem
9.30 (5 munud)	<b>1. Agor y Cyfarfod</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Croeso</li><li>• Datganiad o Fuddiannau</li><li>• Egluro ymddygiad y cyfarfod</li></ul> <p>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)</p>
9.35 (5 munud)	<b>2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu</b> – i gadarnhau – gofynnwyd am ddiwygiadau trwy ohebiaeth ymlaen llaw <b>2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 26 Tachwedd</b> <b>2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus</b> <p>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)</p>
9.40 (5 munud)	<b>3. Busnes y Cadeirydd</b> <p>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw</p> <p>Crynodeb: Y Cadeirydd i roi diweddariad i'r Bwrdd</p>
9.45 (30 munud)	<b>4. Adroddiad y Prif Weithredwr</b> <p>Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr</p> <p>Crynodeb: Rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar weithgareddau allweddol cyfredol</p> <p>Cyflwyniad yn Unig</p>

---

<b>10.15</b> <b>(10 munud)</b>	<p><b>5. Adroddiadau Diweddaru'r Pwyllgorau</b></p> <p>Noddwyr a Chyflwynwyr: Cadeiryddion y Pwyllgorau</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – Dim diweddariad. Dim cyfarfod ers y Bwrdd diwethaf.</li> <li>• Y Pwyllgor Cynghori Tystiolaeth 1 Rhagfyr <b>Cyfeirnod y Papur: 21-01-B01</b></li> <li>• Y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad – Dim Cyfarfod</li> <li>• Y Pwyllgor Rheoli Adolygu Llifogydd 7 Rhagfyr a 7 Ionawr (Ar lafar)</li> <li>• Y Pwyllgor Pobl a Chyflogau – 11 Rhagfyr (Cyhoeddus, heb eu cadarnhau) <b>Cyfeirnod y Papur: 21-01-B02</b></li> <li>• Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – Dim cyfarfod</li> </ul> <p>Crynodeb: Rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar weithgareddau diweddar y pwyllgorau</p>
<b>10.25</b> <b>(45 munud)</b>	<p><b>6. Strategaeth Profiad Cwsmeriaid ac Ymgysylltu</b></p> <p>Noddwr: Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol</p> <p>Cyflwynwyr: Naomi Lawrence, Pennaeth Profiad Cwsmeriaid, Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu, Kate Evans, Materion Cyhoeddus/Ysgrifennydd Personol i'r Prif Swyddog Gweithredol</p> <p>Crynodeb: I'r Bwrdd gymeradwyo cyfeiriad y Strategaeth Profiad Cwsmeriaid ac Ymgysylltu</p> <p>Cyfeirnod y Papur: 21-01-B03</p>
<b>11.10</b> <b>(20 munud)</b>	<p><b>Egwyl</b></p>
<b>11.30</b> <b>(60 munud)</b>	<p><b>7. Cyflwyno Lle: De-ddwyrain Cymru</b></p> <p>Noddwr: Gareth O'Shea, Pennaeth Gweithrediadau</p> <p>Cyflwynydd: Steve Morgan, Pennaeth Gweithrediadau De-ddwyrain Cymru</p> <p>Crynodeb: Darparu trosolwg o'r gweithgareddau allweddol yn rhanbarth De-orllewin Cymru</p>
<p><b>Diwedd Cyfarfod y Bwrdd</b></p>	
<b>12.30</b> <b>(30 munud)</b>	<p><b>8. Sesiwn Holi ac Ateb gyda'r Cyhoedd</b></p>
<b>13.00</b> <b>(60 munud)</b>	<p><b>Egwyl Ginio</b></p>

## Cofnodion heb eu cadarnhau

---

**Teitl y Cyfarfod:** Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyhoeddus  
Pawb a Fynychodd trwy Skype

---

**Dyddiad y Cyfarfod:** 26 Tachwedd 2020

---

**Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:** Syr David Henshaw, Cadeirydd  
Clare Pillman, Prif Weithredwr  
Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd  
Karen Balmer  
Chris Blake (yn absennol o 12.15pm ymlaen)  
Catherine Brown  
Julia Cherrett  
Geraint Davies  
Howard Davies  
Dr Elizabeth Haywood  
Zoe Henderson  
Dr Rosie Plummer  
Yr Athro Peter Rigby  
Clare Pillman, Prif Weithredwr (yn y Gadair)

---

**Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn Bresennol:** Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu  
Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu  
Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid  
Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau  
Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol

---

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:** Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd  
Sarah Williams, Pennaeth Gweledigaeth 2050 a'r Strategaeth Gorfforaethol  
Martyn Evans, Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru

---

**Aelodau o'r Cyhoedd a oedd yn bresennol:** Gareth Wardell  
Daniel Wills - Vattenfall  
Frank Elsworth - Vattenfall  
Jack Hanbury – Ystad Parc Pont-y-pŵl

---

**Datganiadau:** Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

---

**Ymddiheuriadau:** Ni chafwyd yr un ymddiheuriad.

---

## **Eitem 1. Agor y Cyfarfod**

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb. Ni wnaed dim datganiadau pellach.

## **Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu – i gadarnhau – gofynnwyd am ddiwygiadau trwy ohebiaeth ymlaen llaw**

### **2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 16 Medi**

2. Cytunwyd ar gofnodion Sesiwn Gyhoeddus 16 Medi.

### **2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus**

3. Cafodd y Cofnod Gweithredu Cyhoeddus ei adolygu a'i gytuno.

## **Eitem 3. Busnes y Cadeirydd**

4. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd a'r cyhoedd fod CNC wedi parhau i weithio'n dda er gwaethaf heriau'r flwyddyn ddiwethaf. Roedd y gwaith ar Adferiad Gwyrdd yn datblygu a chyn hir byddai'r cynllun yn cael ei lansio'n ffurfiol, ynghyd â manylion am sut y byddai'n symud ymlaen i'r cam gweithredu. Roedd cyhoeddiad yr Adolygiad Llifogydd wedi bod yn llwyddiant, ac roedd hyn wedi gosod sylfaen i gynnal sgysiau pellach ar ddull Cymru o ymdrin â llifogydd.

## **Eitem 4. Adroddiad y Prif Weithredwr**

5. Roedd Adroddiad y Prif Weithredwr yn myfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf, a'i helfennau amlycaf oedd y llifogydd ym mis Chwefror a phandemig Covid. Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, cwblhawyd yr Adolygiad Llifogydd, a gyhoeddwyd ddiwedd mis Hydref, a myfyriwyd arno gan aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol. Roedd wedi sbarduno sgysiau anodd, a'r gobaith oedd y byddai hyn yn gwneud Cymru'n fwy gwydn yn y dyfodol ac y byddai'n parhau yn flaenoriaeth.
6. Roedd CNC wedi bod yn cynllunio ar gyfer y cyfnod ar ôl Brexit ac yn ymateb i faterion a allai godi o adael Ewrop heb gytundeb. Ym mis Mehefin roedd CNC wedi nodi'r angen i fod yn barod am aeaf aml-ddigwyddiad. Cynhaliwyd ymarfer pen desg er mwyn ymarfer yr ymateb o'r radd fwyaf sydd ei angen wrth iddynt gyd-daro; roedd hyn wedi llywio prosesau dros y misoedd diwethaf.
7. Cafodd ail adroddiad SoNaRR ei gyhoeddi'n mewn rhannau yn raddol gan fod rhywfaint o'r gwaith manwl wedi'i ohirio gan Covid. Derbyniodd CNC gadarnhad gan UKWAS fod y labordy wedi cadw achrediad ISO17025.
8. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y Gyllideb a Gwerthiannau Pren. Nodwyd y bu hon yn gyllideb anodd eleni, ond bod CNC bellach ar y trywydd iawn i gyflawni yn erbyn ein targed. Byddai Cynllun Gwerthu a Marchnata Pren newydd o fis Ebrill nesaf ymlaen, ac roedd CNC wedi bod yn ymgynghori'n eang arno. Byddai hyn yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd ym mis Ionawr.

9. Croesawodd y Prif Weithredwr y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd newydd a nododd ymadawiad y Pennaeth Masnachol. Diolchodd am ei gwasanaeth gan ddymuno'n dda iddi yn y dyfodol. Roedd y broses recriwtio wedi dechrau ar gyfer y Pennaeth Archwilio Mewnol newydd a'r Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth. Byddai adroddiad Pulse parhaus i sicrhau Llesiant, Iechyd a Diogelwch da i'r staff, a darparwyd cymorth a chyingor parhaus iddynt.
10. Gorffennodd y Prif Weithredwr trwy ddiolch i'r Tîm Gweithredol a'r holl staff am eu cefnogaeth a'u gwaith diflino yn ystod blwyddyn eithriadol, a diolchodd i'r Bwrdd am eu cefnogaeth a'u her.

## **Eitem 5. Adroddiadau Diweddarau'r Pwyllgorau**

11. Rhoddodd Cadeirydd FPPC ddiweddariad llafar o'r cyfarfod diweddar ar 10 Tachwedd. Yr eitemau trafod allweddol oedd Cylch Cynllunio Busnes 2022, y Cynllun Busnes drafft, ac roedd gwaith wedi dechrau ar y Cylch Cynllun Corfforaethol Pum Mlynedd ar gyfer 2022-27 a fyddai'n cael ei lywio gan waith Gweledigaeth 2050. Roedd CNC yn gobeithio comisiynu grŵp gweledigaeth newydd ar gyfer pobl ifanc i gyfrannu at drafodaethau cynllunio.
12. Nododd Cadeirydd FRMC yr adolygiad o lifogydd 2020, a diolchwyd i staff CNC am eu gwaith rhagorol. Roedd yr adolygiad am sicrhau cynllunio cywir yn y dyfodol, gan anfon y negeseuon cywir at y cyhoedd. Roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid cynnal adolygiad annibynnol o ddigwyddiadau yn ystod llifogydd.
13. Roedd materion allweddol eraill yn cynnwys cyfraniad CNC yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, a fyddai'n gofyn am gydweithio a phartneriaeth agos i gyflawni ei nodau. Bu FRMC hefyd yn canolbwyntio ar gronfeydd dŵr ac roedd canlyniadau ymchwiliad Toddbrook yn debygol o arwain at ddeddfwriaeth newydd.

## **Eitem 6. Dangosfwrdd perfformiad y Cynllun Busnes 2020-21 – Diweddariad Ch2**

14. Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr Adroddiad Perfformiad ar gyfer Ch2 i'r Bwrdd ddiwedd mis Medi gan nodi y byddai'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Hwn oedd yr adroddiad cyntaf ers adolygiad Cynllun Busnes 2020/2021, a gymeradwywyd yng nghyfarfod mis Gorffennaf y Bwrdd.
15. Nododd y Bwrdd y mesurau allweddol a'u sgoriau cynnydd fel yr amlinellir yn y papur. O ran gwaith archwilio dilynol, roedd craffu annibynnol fel archwiliad UKWAS a phrosesau her mewnol megis ymateb i ddigwyddiadau, yn ymdrin â'r mater hwn.
16. Cytunodd y Bwrdd ar y cynnig i fabwysiadu adroddiad am eithriadau Ch3 symlach.

### **CYTUNWYD: Cytunodd y Bwrdd i'r dull arfaethedig er mwyn cael adroddiad am eithriadau symlach wrth adrodd ar berfformiad Ch3.**

17. Holodd y Bwrdd ym mha ffordd yr oedd yr wybodaeth rheoli perfformiad yn cael ei herio'n annibynnol, a gofynnwyd am ddiweddariad byr ar y gwiriadau a'r mesurau a oedd ar waith ar gyfer y cyfarfod nesaf. Eglurodd y Prif Weithredwr fod y ffigurau a gynhyrchir yn cael eu herio ar sawl lefel: herio allanol megis UKWAS a herio mewnol gan aelodau'r tîm a gynhyrcha'r ffigurau i'r Tîm Perfformiad sy'n cynhyrchu'r adroddiad, y Tîm Gweithredol ac Archwilio Mewnol.

**CAM GWEITHREDU: Y Prif Weithredwr i roi diweddariad byr i gyfarfod nesaf y Bwrdd ar y gwiriadau a'r mesurau sydd ar waith i herio'r wybodaeth rheoli perfformiad yn annibynnol.**

18. Gofynnodd y Bwrdd am ddiweddariad ar barodrwydd CNC i ymateb i'r newidiadau mewn amaethyddiaeth ar ôl Brexit a newidiadau deddfwriaethol. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu gynlluniau a gefnogwyd gan y Tîm Gweithredol, a dywedodd y byddai'r cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn fanylach yn y Flwyddyn Newydd.
19. Codwyd mater y toriadau yn y gyllideb amaethyddol a thrafnidiaeth a gyhoeddwyd, a gofynnwyd i'r Tîm Gweithredol sut y byddai hyn yn effeithio ar y rhaglenni sydd ar ddod. Cadarnhawyd y cynhelir sgysiau am ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru, ac roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yn aelod o Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru (RIWSG). Cadarnhaodd fod y drafodaeth hon ar yr agenda.

**CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i gylchredeg e-bost a dderbyniwyd gan RIWSG ar yr Adolygiad o Wariant y DU.**

20. Rhoddodd yr Athro Steve Ormerod ddiweddariad ynglŷn â'r fforwm Pysgodfeydd a thynnodd sylw at y papur diweddar da iawn ar faterion ffosffad Gwy. Fodd bynnag, heriodd y terfyn o bedair awr i ymateb i ddigwyddiadau. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau y broses a'r ddibyniaeth ar asesiadau cychwynnol wrth ymateb. Fodd bynnag, derbyniodd y pwynt ehangach a byddai'n gofyn i Bennaeth Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru roi diweddariad pellach i'r Bwrdd ar y pwnc.

**CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i drafod gyda Phennaeth Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru a rhoi diweddariad pellach i'r Bwrdd ar y terfyn o bedair awr i ymateb i ddigwyddiadau.**

**Eitem 7. Diweddariad ar Adferiad Gwyrdd (Ilafar)**

Sarah Williams, Pennaeth Gweledigaeth 2050 a'r Strategaeth Gorfforaethol

21. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yr eitem. Roedd y Gweinidog wedi croesawu'r adroddiadau a'r casgliadau ac wedi cymeradwyo'r ddau i'w cyhoeddi.
22. Roedd yr adroddiad cyntaf ar gynigion yr Adferiad Gwyrdd a'r llall ar y gefnogaeth i'r sector eNGO. Roedd 50 o gynigion blaenoriaeth un a 48 o gynigion yr oedd arnynt angen rhagor o waith a datblygiad. Roedd adnoddau wedi'u hymrwymo ac roeddent yn canolbwyntio ar y cynigion blaenoriaeth un ac iddynt achosion busnes da fel y gellid eu cysylltu â chyfleoedd cyllido sydd eisoes yn bod.
23. Roedd hefyd 19 o gamau galluogi ehangach o fewn y Bartneriaeth Cyflenwi Adferiad Gwyrdd nad oeddent yn gamau gweithredu penodol, ond a oedd yn gweithio ar gysylltu pobl a hwyluso gweithredu.
24. Roedd gan yr ail adroddiad, a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi'r trydydd sector amgylcheddol, argymhellion ar draws ystod eang o feysydd yn annog cydweithredu ac arallgyfeirio incwm. Ar hyn o bryd roedd CNC yn gweithio trwy argymhellion gyda Llywodraeth Cymru a byddai hefyd yn ystyried cynnull grŵp o randdeiliaid yn y sector preifat i archwilio'r materion yn fanylach.

25. Nododd y Bwrdd rôl bwysig SMNR a deddfwriaeth arall wrth hwyluso'r gwaith hwn a thanlinellwyd hyn yn enghraifft dda o sut y gall deddfwriaeth gefnogi gweithredu.

## Eitem 8. Cyflwyno Lle

Martyn Evans, Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru

26. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau yr eitem a nododd mai hwn oedd y cyflwyniad lle cyntaf ers y Trallwng yn 2019 oherwydd Covid-19.

27. Rhoddodd Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru gyflwyniad ar weithgarwch yn y rhanbarth ers y diweddariad diwethaf i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2019 a rhoddodd drosolwg o'r datblygiadau diweddaraf. Dyma'r meysydd a amlinellwyd: ansawdd dŵr, ansawdd aer, rheoli tir ac asedau a gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Croesawyd y cyflwyniad gan y Bwrdd a nodwyd adborth cadarnhaol gan drigolion lleol ar y rhyngweithio gan CNC yn yr ardal. Ymatebodd Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru i sawl ymholiad gan aelodau'r Bwrdd ynghylch materion cyfredol yn yr ardal.

28. Roedd ymholiad ynghylch cynnwys y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn gwaith ar dir comin pori a ariannwyd gan grant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ac a fyddai hyn yn straen ar adnoddau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau fod CNC yn gyfrwng ar gyfer trosglwyddo arian i berchenogion/meddianwyr ac y byddai'n rhannu mwy o wybodaeth am y prosiect all-lein.

**CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i rannu rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Tân ac Achub/ y gwaith ar dir comin pori a ariennir gan grant y BGC gyda Geraint Davies all-lein.**

29. Cynigiodd y Bwrdd eu cefnogaeth ar faterion yn ymwneud â gwastraff yn ystod Covid a gofynnwyd a oedd mwy y gallem ei wneud o safbwynt rheoleiddio. Roedd gwaith pellach ar y gweill ar ffurf darn o waith rheoleiddio strategol, ac roedd Polisi, Tystiolaeth a Thrwyddedu yn gweithio gyda'r timau Gweithrediadau.

30. Gofynnodd y Bwrdd am ragor o wybodaeth am ddefnyddio technegau arloesol, technolegau newydd a ffyrdd newydd o weithio sydd wedi cynorthwyo yn ystod Covid.

**CAM GWEITHREDU: Pennaeth Gweithrediadau'r De-orllewin i ddarparu nodyn i'r Bwrdd ar arloesi, technolegau newydd a ffyrdd newydd o weithio sydd wedi helpu'r timau Gweithrediadau yn ystod Covid.**

## Eitem 9. Sesiwn Holi ac Ateb Ryngweithiol gyda'r Cyhoedd

38. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyhoedd i'r sesiwn holi ac ateb.

39. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol:

- Gofynnodd Daniel Wills a fyddai'r Swydd Pennaeth Masnachol yn cael ei chadw neu a fyddai'r Cyfarwyddwr newydd yn ymgymryd â'r rôl. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai CNC yn penodi Pennaeth Masnachol newydd, am ei fod yn rhan o'r strwythur presennol.

- Gofynnodd Frank Elsworth a oedd Bwrdd CNC yn ymwybodol o sgîl-efeithiau prosiect Fferm Wynt Pen-y-Cymoedd (PyC) i Economi Cymru. Holodd a oedd y Bwrdd yn derbyn bod PyC yn drefniant prydlesu CNC a negodwyd sy'n deilwng o gael ei fabwysiadu ar bob prosiect adnewyddadwy Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol fod CNC yn ymwybodol o hyn.

**CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Masnachol, Cwsmeriaid a Chyfathrebu i ymateb i Frank Elsworth ynghylch ei ymholiadau eraill a gyflwynwyd ar ôl y cyfarfod.**

- Gofynnodd Jack Hanbury am gofnod gorfodi gwastraff CNC. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau fod CNC yn gweithio o fewn y fframwaith rheoleiddio a bod yr holl ddata gorfodi ar gael ar wefan CNC.
- Holodd Jack Hanbury hefyd am yr adnoddau yn y timau gorfodi gwastraff. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu sicrwydd fod CNC yn gweithio ar yr adnoddau o fewn y timau. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cynnull cyfarfod gyda Mr Hanbury i drafod y materion ymhellach.

**CAM GWEITHREDU: Galwad ddwyochrog gyda Jack Hanbury, y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chadeirydd CNC i drafod ymhellach ei ymholiadau ar orfodi gwastraff.**

- Gofynnodd Gareth Wardell a oedd Bwrdd CNC yn derbyn bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gydymffurfio â'i ofyniad i ddilyn agweddau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd datblygu cynaliadwy. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod CNC yn edrych ar hyn trwy'r Strategaeth Fasnachol a bod nifer o sefydliadau eraill yn wynebu'r un her. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu fod CNC wedi ymrwymo i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR). Nododd fod gan CNC gyfres o nodau llesiant yn y Cynllun Corfforaethol a'i fod yn gweithredu yn unol â'r nodau.
- Gofynnodd Gareth Wardell a fyddai CNC yn elwa pe bai swyddogaethau masnachol rheoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (WGWE), naill ai ar gyfer creu coetiroedd neu greu cynlluniau ynni adnewyddadwy, yn cael eu dargyfeirio i asiantaeth ar wahân. Ymatebodd y Prif Weithredwr fod CNC yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer cam nesaf ynni gwynt. Roedd y fframwaith yn darparu sail gadarn i sicrhau gwerth o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Byddai'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol yn parhau i yrru'r Strategaeth Fasnachol yn dilyn ymadawiad y Pennaeth Masnachol.

**Daeth y Cyfarfod i Ben**



### Cyfarfodydd y Bwrdd

Categori Cyfarfod	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Rhif Paragraff	Noddwr y Papur	Cam Gweithredu	Perchennog	Erbyn	Statws	Nodiadau/Diweddariad
Cyhoeddus	16/09/2020	6	22	Amh.	CAM GWEITHREDU: Cytunwyd y byddai'r Prif Weithredwr yn ysgrifennu llythyr ymateb yn amlinellu cynnydd prosiect Brechfa Dau CNC – Swyddfa'r Prif Swyddog Gweithredol	Swyddfa'r Prif Swyddog Gweithredol/ Kate Evans	16/10/2020	Wedi'i gwblhau	
Cyhoeddus	26/11/2020	6	19	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu i gylchredeg e-bost a dderbyniwyd gan RIWSG ar Adolygiad o Wariant y DU.	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	26/11/2020	Wedi'i gwblhau	
Cyhoeddus	26/11/2020	6	20	Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i drafod gyda Phennaeth Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru ynghylch cael trafodaeth gyda'r Bwrdd yn y dyfodol ar y terfyn o 4 awr i ymateb i ddigwyddiadau.	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	20/12/2020		
Cyhoeddus	26/11/2020	8	31	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	CAM GWEITHREDU: Pennaeth Gweithrediadau'r De Orllewin i ddarparu nodyn i'r Bwrdd ar ddatblygiadau arloesol/technolegau/ffyrdd newydd o weithio a ddefnyddir sydd wedi helpu'r timau gweithrediadau yn ystod Covid.	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	20/12/2020		
Cyhoeddus	26/11/2020	8	29	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau i rannu rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Tân ac Achub/y prosiect tir comin pori a ariennir trwy grant gan y BGLI, gyda Geraint Davies all-lein.	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	20/12/2020		
Cyhoeddus	26/11/2020	9	39	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Masnachol, Cwsmeriaid a Chyfathrebu i ymateb i Frank Elsworth ynghylch ei ymholiadau eraill a gyflwynwyd ar ôl y cyfarfod.	Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol	20/12/2020		Trefnwyd cyfarfod gyda Mr Elsworth ar gyfer 11 Ionawr.
Cyhoeddus	26/11/2020	9	39	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Galwad ddwyochrog gyda Jack Hanbury, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chadeirydd CNC i drafod ymhellach ei ymholiadau ar orfodi gwastraff.	Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De	20/12/2020		

	Manylion y Papur
<b>Teitl y Papur:</b>	Diweddariad gan y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth (EAC)
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	21-01-B01
<b>Noddir y Papur gan:</b>	Peter Rigby – Cadeirydd EAC
<b>Cyflwynir y Papur gan:</b>	Peter Rigby
<b>Diben y Papur:</b>	Er gwybodaeth
<b>Argymhelliad:</b>	Nodi'r diweddariad

## Mater

Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod o'r pwyllgor EAC ar 1 Rhagfyr 2020.

## Diweddariad

1. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yr EAC yn dilyn penodi saith aelod annibynnol yn ddiweddar. Yn bwyllgor newydd, caiff yr aelodaeth ei monitro i sicrhau bod ganddo'r arbenigedd angenrheidiol i herio ac i fod mor drwyadl â phosibl ynghylch swyddogaethau tystiolaeth CNC. Y bwriad yw cyngori Bwrdd CNC a chynnig sicrwydd iddynt yn y ffordd orau posibl. Gall y Pwyllgor sefydlu Gweithgorau Gorchwyl a Gorffen i ategu'r arbenigedd hwnnw.
2. Rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor o gyfrifoldebau eang CNC a chafwyd gwell dealltwriaeth o flaenoriaethau a phenderfyniadau'r sefydliad, y mae'r cyfan ohonynt yn ddibynnol, yn y pen draw, ar ein sail tystiolaeth.
3. Tynnwyd sylw at y newid diwylliant yn CNC ar y pryd tuag at gydnabod tystiolaeth. Nododd y Pwyllgor fod llywodraethu, prosesau ac adnoddau sy'n gysylltiedig ag adnabod, comisiynu a defnyddio tystiolaeth yn parhau i gael eu datblygu. Yn ogystal, mynegwyd i'r pwyllgor bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i ddarparu ac i ddefnyddio'r dystiolaeth a'i hadnoddau data, er mwyn rhannu a deall yr hyn sy'n ysgogi tystiolaeth.
4. Cafwyd amrywiaeth o gyflwyniadau i ddangos:

- ehangder y gweithgareddau tystiolaeth ledled y sefydliad gan gynnwys gwaith Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2020
  - meysydd sy'n peri pryder i'r cyhoedd, megis yr adolygiad diweddar o berygl llifogydd.
5. Thema gyffredin yn y cyfarfod oedd yr angen i ddatblygu strategaeth ynghylch sut i ymgysylltu'n effeithiol a chyfleu ein tystiolaeth i'n rhanddeiliaid amrywiol. Byddai hyn yn sbarduno newidiadau mewn ymddygiad yn unol â'r blaenoriaethau, y cyfleoedd a'r pwysau a nodwyd. Cydnabuwyd natur ryngddisgyblaethol y dystiolaeth honno, ynghyd â'r penderfyniadau dilynol ar gamau gweithredu.
6. Yr wyf 'nawr yn ystyried camau nesaf y Pwyllgor, cyn cyfarfod nesaf yr EAC yn y gwanwyn.

	Manylion y Papur
<b>Teitl y papur:</b>	Diweddariad gan y Pwyllgor Pobl a Chyflogau (PaRC)
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	21-01-B02
<b>Noddir y Papur gan:</b>	Zoe Henderson – Cadeirydd PaRC
<b>Cyflwynir y Papur gan:</b>	Zoe Henderson
<b>Diben y papur:</b>	Er gwybodaeth
<b>Argymhelliad:</b>	Nodi'r diweddariad

## Mater

Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod PaRC ar 11 Rhagfyr 2020.

## Diweddariad

Trafodwyd y materion allweddol canlynol:

1. Adolygu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi a'r cofnod gweithredu.
2. Rhoddodd y Pennaeth Llywodraethu ddiweddariad ar y camau gweithredu a amlinellir ym mhapur Adolygu Effeithiolrwydd PaRC.
3. Trafododd PaRC y data a ddarperir gan y papur Gwybodaeth Reoli, megis Lefelau Staffio Chwarterol, lleihad mewn salwch staff a'r Rotas.
4. Rhoddodd y Pennaeth Rheoli Pobl ddiweddariad ar bolisi a oedd yn tanlinellu'r Cap ar y Taliad Ymadael, risgiau'r Cyflogwr a'r hawliadau a gyflwynwyd yn y papur Cyflogwr / Atebolrwydd Cyhoeddus a Pholisi Dewisol CPLIL.
5. Trafododd PaRC y diffiniadau a'r rhanddeiliaid a gyflwynwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid a rhoddwyd adborth. Cytunwyd y byddai'r eitem yn fwy priodol ar gyfer Pwyllgor arall.
6. Rhoddodd y Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Rheoli Portffolio gyflwyniad ar Werthuso Dylunio Sefydliadol (OD) a oedd yn diweddarau PaRC ar brydlondeb a chynnydd y Gwerthusiad OD.

7. Rhoddwyd diweddariadau llafar ar ganfyddiadau'r Arolwg Pulse a'r diweddaraf o ran Covid. Tynnodd hyn sylw at ba mor amserol y mae'r prosiect adnewyddu ac at bwysigrwydd canfyddiadau'r arolwg.
  8. Cyflwynodd y Pennaeth Datblygiad Sefydliadol y model cynllunio ar gyfer olyniaeth a oedd wedi'i ganfod trwy Gynllun y Gweithlu.
  9. Rhoddodd y Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch ddiweddariad ar yr adroddiad ar Adolygiadau Archwilio Mewnol a'r Polisi Llesiant, Iechyd a Diogelwch diwygiedig.
  10. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol risg strategol Adnoddau Staff SR06, Galluogrwydd a'r datganiad archwaeth risg drafft ar gyfer SR06.
-



# Papur y Bwrdd

20 Ionawr 2021

<b>Teitl y Papur:</b>	Strategaeth Profiad Cwsmeriaid ac Ymgysylltu
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	21-01-B03
<b>Noddir y Papur Gan:</b>	Sarah Jennings – Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol
<b>Cyflwynir y Papur Gan:</b>	Naomi Lawrence – Pennaeth Profiad Cwsmeriaid Catrin Hornung– Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol Kate Evans – Rheolwr, Materion Cyhoeddus ac Ysgrifennydd Personol i'r Prif Swyddog Gweithredol

<b>Diben y Papur:</b>	<b>Penderfyniad</b>
<b>Argymhelliad:</b>	I'r Bwrdd gymeradwyo'r Strategaeth Profiad Cwsmeriaid ac Ymgysylltu arfaethedig yn gyfeiriad cywir i'r sefydliad

<b>Effaith:</b>	<p>Sut y mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran y canlynol:</p> <p><b>Ystyried yr <u>hirdymor</u>:</b> Mae ein strategaeth arfaethedig yn ffurfioli ymrwymiad i ymgorffori Profiad Cwsmeriaid yn fusnes, fel arfer o weithio yn CNC.</p> <p><b>Defnyddio dull gweithredu <u>integredig</u>:</b> Byddwn yn dilyn arfer gorau ac yn mesur ein perfformiad yn erbyn cyrff y sector cyhoeddus a'r sector preifat.</p> <p><b><u>Cydweithio</u>:</b> Mae cyflawni'r strategaeth hon yn llwyddiannus yn gofyn i bob un ohonom weithio gyda'n gilydd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.</p> <p><b><u>Cynnwys</u>:</b> Mae ein strategaeth arfaethedig yn gosod barn cwsmeriaid yn sylfaen ar gyfer pob penderfyniad a cham gweithredu yn y dyfodol.</p>
-----------------	---

	<p><b>Atal materion rhag codi:</b> Bydd gwaith a wneir trwy'r strategaeth hon i wella profiad cwsmeriaid yn sbarduno newid mewnol er mwyn hwyluso'r broses o wneud busnes gyda CNC a chyflymu'r broses honno, gan leihau cymhlethdod ac atal problemau.</p>
--	---

## Mater

1. Cais i gymeradwyo'r Strategaeth Profiad Cwsmeriaid ac Ymgysylltu yw'r papur hwn, er mwyn galluogi CNC i ddangos ei ymrwymiad i roi ein cwsmeriaid wrth wraidd yr hyn a wnawn. Byddai hyn yn sefydlu mesurau i ddatrys materion hanesyddol o ran canfyddiad fel y nodwyd gan Archwiliad Canfyddiad diweddar Aelod o'r Senedd. Byddai hefyd yn ceisio egluro'r prosesau o ran perchnogaeth perthnasoedd mewnol ac allanol, gan egluro'r gweithdrefnau uwchgyfeirio ar eu cyfer.
2. Mae'r papur hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r angen i flaenoriaethu ac i gael cysondeb strategol ar draws holl weithgarwch ymgysylltu'r sefydliad. Byddai hyn yn osgoi dyblygu ac aneffeithlonrwydd, gan gynnig fframwaith llif gwybodaeth i sicrhau negeseuon cyson ledled y sefydliad.

## Cefndir

3. Cymeradwyodd CNC y Strategaeth Meithrin Ymddiriedolaeth Cwsmeriaid ym mis Medi 2018. Roedd y strategaeth hon yn cynnwys 13 o brosiectau a gynlluniwyd i'w cyflawni yn erbyn ein Cynllun Corfforaethol **Amcan Lles 7 - datblygu CNC yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaethau cwsmeriaid o'r radd flaenaf.**
4. Mae CNC wedi dangos ymrwymiad i gynnig profiadau rhagorol i'n cwsmeriaid trwy greu rôl newydd Pennaeth Profiad Cwsmeriaid. Llenwyd y swydd hon ym mis Gorffennaf 2020.
5. Mae CNC wedi ymrwymo i gryfhau'r ffordd y mae'n cydweithio ag eraill er budd ein cwsmeriaid trwy greu'r Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol a thrwy benodi Cyfarwyddwr newydd.
6. Golyga pandemig y Coronafeirws fod ein cwsmeriaid wedi gorfod addasu'n gyflym i ffyrdd newydd o weithio, a disgwyl i'w cyflenwyr barhau i ddarparu eu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd, arloesol a digidol yn bennaf.
7. Wrth inni weld pwysau cynyddol ar gyllid cyhoeddus a'r ffocws parhaus ar yr argyfyngau hinsawdd a natur mewn byd ôl-Covid, ni fu ymgysylltu strategol â rhanddeiliaid, sy'n cyd-fynd yn agos â'r amcanion busnes, erioed yn bwysicach.
8. Croesawyd y newid i gyfeiriad sefydliadol sy'n seiliedig ar le, ond mae adegau, o hyd, lle mae angen eglurder ynghylch uwchgyfeirio'r broses o reoli perthnasoedd a sicrhau bod negeseuon a chymau gweithredu yn cael eu goruchwyllo yn gorfforaethol.

## Asesu

9. Adolygwyd Strategaeth Canolbwyntio ar Gwsmeriaid 2018 gan y Pennaeth Profiad Cwsmeriaid a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol. Y bwriad yw deall yr hyn y mae CNC wedi ymrwmo i'w gyflawni yn y gorffennol, ac ystyried a yw hyn yn cyd-fynd â'r meddylfryd presennol.
10. Crëwyd y Strategaeth Canolbwyntio ar Gwsmeriaid yn dilyn arolwg cwsmeriaid allanol a gynhaliwyd gan y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid (ICS) ar ein rhan yn 2018. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod y set ddata hon yn rhy fach i fod yn gynrychioliadol o sylfaen cwsmeriaid CNC, a bod y data a ddarparwyd gan CNC o'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) o ansawdd gwael.
11. Treuliodd y Pennaeth Profiad Cwsmeriaid bedwar mis yn cyfarfod â chydweithwyr o bob rhan o CNC i ddeall y safbwynt mewnol o ran y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'n cwsmeriaid ar hyn o bryd.
12. Gofynnwyd am farn ledled CNC ar y strategaeth bresennol ac am y 13 prosiect sy'n rhan ohoni sy'n cael eu cynnal gan y Rhaglen Gwsmeriaid. Arweiniodd y trafodaethau hyn at y casgliad bod y Rhaglen yn canolbwyntio gormod yn fewnol ac nad yw'n cydweithio ddigon i sicrhau canlyniadau ar draws y fenter. Mae yna ganfyddiad mai dim ond y Rhaglen sy'n ymdrin â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chwsmeriaid. Ychydig iawn o brosiectau'r Rhaglen sydd wedi sicrhau manteision pendant, ac nid yw'r gynulleidfa allanol wedi synhwyro'r manteision hyn.
13. Yn rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer Gweledigaeth 2050, rydym wedi dadansoddi fformat ein rhestrau rhanddeiliaid. Mae llawer y gellid ei wneud i wella eu heffeithiolrwydd ac i'w hintegreiddio. Er enghraifft, nid yw cwsmeriaid a rhanddeiliaid wedi'u diffinio ar hyn o bryd ac felly mae dryswch ynglŷn â'r gwahanol berthnasoedd, pwy sy'n siarad â phwy, pryd a pham, a phwy sy'n berchen ar y perthnasoedd hynny. Rydym wedi datblygu dogfen ddiffinio (yn Atodiad 2) a adolygwyd gan y Tîm Gweithredol (TG) ym mis Hydref 2020 a'r Pwyllgor Pobl a Chyflogau (PaRC) ym mis Rhagfyr 2020.
14. Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd â'r Timau Cyfathrebu a Masnachol a swyddfa'r Prif Swyddog Gweithredol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'u cynlluniau. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gyda TGCh i fesur pa offer presennol sydd ar gael i gefnogi'r gwaith hwn.
15. Aethpwyd â'r strategaeth i'r TG ar 15 Rhagfyr 2020 ac fe'i cymeradwywyd i'w chyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2021.

## Strwythur y Tîm Profiad Cwsmeriaid

16. Er mwyn cyflawni'r strategaeth rydym yn cynnig newid strwythur y Tîm Cwsmeriaid. Y Tîm Profiad Cwsmeriaid fydd ein henw, yn hytrach na'r Tîm Rhaglen Cwsmeriaid. Mae hyn yn datgan y newid yn y ffocws. Mae'n dileu'r awgrym mai rhaglen waith yw hon a fydd yn dod i ben ac mai dim ond y Rhaglen Cwsmeriaid sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chwsmeriaid. Mae'r Tîm Profiad Cwsmeriaid yn cynnwys yr Hyb Cwsmeriaid. Ar ôl cymeradwyo'r strategaeth byddwn yn mynd trwy gyfnod o ail-frandio.



17. Cytunwyd ar strwythur y tîm mewn egwyddor yn y TG ym mis Rhagfyr ond mae'n amodol ar gwblhau cyllideb CNC gyfan. Gweler Atodiad 3 am ragor o fanylion am y rolau newydd.

### Crynodeb o swyddi newydd yn y tîm

<b>Rheolwr Profiad Cwsmeriaid</b>	Mae'r swydd hon yn disodli'r swydd Cynghorydd Arbenigol Arweiniol Gradd 8 sydd ar hyn o bryd yn Benodiad Cyfnod Penodol (FTA).
<b>Rheolwr Ymgysylltu</b>	Mae'r swydd hon yn disodli'r swydd Cynghorydd Arbenigol Arweiniol Gradd 6 sy'n FTA ar hyn o bryd.
<b>Dadansoddwr Data/Ymchwilydd Marchnad</b>	Mae hon yn swydd Gradd 6 newydd sy'n disodli swydd bresennol y Cynghorydd Cyfathrebu gan nad oes angen hyn mwyach oherwydd y berthynas waith gydweithredol rhwng y timau Profiad Cwsmeriaid a Chyfathrebu.
<b>Arweinydd Tîm yr Hyb Cwsmeriaid</b>	Ar hyn o bryd mae'r rôl hon yn FTA Gradd 6 hyd at fis Mawrth 2021, ac rydym yn cynnig ei bod yn dod yn barhaol.
<b>Arweinydd y Tîm Rhyddid Gwybodaeth a Chwynion</b>	Rôl Gradd 6 newydd yw hon a fydd yn arwain swyddogaeth Rhyddid Gwybodaeth, Cwynion a Thrwyddedu Data'r Hyb Cwsmeriaid, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol a gweithdrefnau CNC.
<b>Ceidwad Data</b>	Mae'r rôl Gradd 5 hon ar hyn o bryd yn FTA hyd at fis Hydref 2021, ac rydym yn cynnig ei bod yn dod yn barhaol.
<b>Trwyddedu Data</b>	Rôl Gradd 5 newydd yw hon a fydd yn cynnig perchnogaeth fusnes effeithiol ar gyfer swyddogaeth benodol yn yr Hyb Cwsmeriaid, gan ymdrin â cheisiadau trwyddedu data cymhleth.

### Llywodraethu

18. Gofynnwyd am arweiniad gan y TG ym mis Rhagfyr ynghylch sut y dylid rheoli profiad ac ymgysylltiad cwsmeriaid.
19. Argymhellwyd gan y TG ein bod yn dilyn yr un dull â'r Tîm Lles, Iechyd a Diogelwch, lle rydym yn gweithio ledled CNC, gan weithio gyda byrddau busnes i ymgorffori'r gwaith hwn yn llawn ar draws y sefydliad. Byddwn yn ceisio arweiniad gan y Tîm Lles, Iechyd a Diogelwch ym mis Ionawr 2021 ac yn cytuno ar ffordd ymlaen gyda'r TG.

## Argymhellion

20. Rydym yn dymuno eich cytundeb bod y Strategaeth Profiad Cwsmeriaid ac Ymgysylltu yn gosod y cyfeiriad cywir i'r sefydliad.

## Risgiau Allweddol

21. Mae'r systemau rhanddeiliaid presennol yn hen ffasiwn ac yn anghynnaladwy. Mae'r pwyslais ar ddefnyddio taenlenni Excel unigol yn golygu bod diffyg cysondeb, risgiau posibl o ran cydymffurfio â GDPR, ac nid yw'n hawdd diweddarau gwybodaeth felly mae bygythiad posibl i barhad busnes.
22. Os nad ydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR), mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ystod o bwerau gorfodi y gallant eu defnyddio, gan gynnwys:
- Cyflwyno hysbysiadau gwybodaeth, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybodaeth benodol iddynt.
  - Cyflwyno hysbysiadau gorfodi sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni gymryd camau penodol.
  - Rhoi cosbau ariannol, hyd at uchafswm o £17 miliwn.
  - Pwerau arolygu.
23. Mae hyn yn ychwanegol at yr effaith ar enw da CNC os nad ydym yn cydymffurfio â deddfwriaeth.
24. Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a gallant argymhell y canlynol os ydynt yn cadarnhau cwyn:
- Ymddiheuriad, esboniad a chydabyddiaeth o gyfrifoldeb.
  - Camau unioni, a all gynnwys adolygu penderfyniad ar y gwasanaeth a roddwyd i achwynydd unigol, adolygu gweithdrefnau i atal yr un peth rhag digwydd eto a hyfforddi staff.
